


# GWASANAETH LLYFRGELL YSGOLION MÔN



Mae'n ddechrau blwyddyn ysgol newydd ond yn ddiwedd cyfnod i'r **Llyfrgell Deithiol Ysgolion** ym Môn. Wedi dros ugain mlynedd o wasanaeth clodwiw, mae'r fan bellach wedi dod i ddiwedd ei hoes. Y newyddion da ydi ein bod yn cael cerbyd newydd, edrychwch allan amdani yn cyrraedd buarth yr ysgol; mae'n dipyn gwahanol i'r hen un!

## Sialens Ddarllen yr Haf – Sbonc y Gofod

Yn ystod gwyliau'r haf bydd amryw o'ch disgyblion wedi cymryd rhan yn Sialens Ddarllen yr Haf – Sbonc y Gofod sydd wedi bod yn rhedeg ymhob un o lyfregelloedd Môn. Byddant wedi cael eu gwobrwyo gyda medal a thystysgrif ac yn ogystal ag wedi derbyn cerdyn aelodaeth newydd y gwasanaeth llyfrgell. Cynlluniwyd tri cherdyn newydd i ni yn benodol ar gyfer plant gan Jac Jones.

## Awduron enwog

Ar gyfer y flwyddyn nesaf mae gennym raglen gyffrous o awduron enwog yn dod ar ymweliad i Fôn gan gynnwys **Bardd Plant Cymru** -Dewi Pws, Tom Palmer-sydd wedi gwneud cryn enw iddo'i hun ym maes hybu bechgyn i ddarllen, Steve Barlow a Steve Skidmore -dau sy'n cynnig sioe lyfrau fyrlymus llawn hwyl, yn ogystal â chriw dawnus **Hei Hogia Bach**.

**Arlwy gobeithio fydd at ddant pawb a chyfrwng i ddenu plant at lyfrau a darllen!**

# CWRS CYMATHU RHIENI CANOLFANNAU IAITH MÔN

Gweithredir 'Cynllun Cymathu Rhieni' ar gyfer rhieni yng Nganolfan Iaith Moelfre, cwrs a luniwyd gan Rhys Hearn fu'n athro yn y ganolfan. Mae llawlyfr y cwrs yn cynnwys peth o hanes Ynys Môn a manau o ddiddordeb arbennig, yn ogystal ag ystyron enwau llefydd. Hefyd rhestr o eiriau ac ymadroddion fydd o gymorth i rieni di-Gymraeg, gan gynnwys yr eirfa a'r patrymau sy'n gysylltiedig â'r cynllun; gwaith a ddefnyddir gyda'r disgyblion yn y Ganolfan, sef Cynllun y Llan. Mae hwn yn gynllun am bentref dychmygol Llanfairgogoch a'r gwahanol gymeriadau a daw y rhieni yn gyfarwydd â'r hyn a ddysgir gan eu plant yn y ganolfan.

Ynndo hefyd cynhwysir nifer o ddeialogau gyda chyfle i'r rhieni wrando anrynt ar gryo ddisg a baratowyd yn arbennig ar gyfer y cwrs.

Gweithredir y Cynllun hwn yng Nghanolfan Iaith Môn mewn cydweithrediad â Chanolfan Gymaeg i Oedolion Bangor a Menter Iaith Môn.

# O'r Ganolfan Iaith i'r ysgol...



Fy enw i yw Sophia Lee a rydw i yn 10 oed. Rwyf yn byw yn Llangefni ac enw fy tŷ fi ydi Green Acres. Rwyf yn byw efo Dad, Nain, Taid a fy brawd Callum. Rwyf yn hoffi canu, chwarae D.S. a reidio ceffylau a sgwrsio hefo fy ffrindiau. Dydw i ddim yn hoffi y ceffylau yn trio brathu fi. Pan ydw i yn helpu Huey a Betty hefo y ceffylau rydw i yn chwarae hefo Penny ceffyl fi. Mae hi yn bod yn 'chici'. Os yw'n bwrw glaw dydy hi ddim yn symud pan yda ni eisiau iddi hi mynd i'r paddock. Yn yr ysgol rydw i'n hoffi nofio ac amser chwarae. Fy ffrindiau yn yr ysgol ydy Lauren, Sara, Angharad, Kathleen ac Erin. Pan fyddaf wedi tyfu rydw i eisiau magu ceffylau. Rwyf am fagu Irish draughts, section A a Shetlands.



Fy enw i ydy Katie a rydw i'n byw yn Llaneilian. Rydw i'n ddeg oed. Symudais i o dde Lloegr i Ynys Môn dwy flynedd yn ôl. Cyn i fi symud i Ynys Môn dim ond Saeseng oeddwn i yn siarad. Mi es i'r Ganolfan Iaith yn Moelfre i ddysgu siarad Cymraeg. Mi ges i lot o hwyl a gwnes i lot o ffrindiau newydd a pob un rwan yn siarad Cymraeg. Roeddwn yn mwynhau'r actio a'r gwisgo i fyny. Roeddwn hefyd yn mwynhau'r canu yno. Ar ôl fy amser yn y Ganolfan Iaith roeddwn i yn gallu siarad Cymraeg hefo pawb yn yr ysgol newydd, Ysgol Penysarn. Rwan achos rydw i yn siarad Cymraeg mae gen i llawer iawn o ffrindiau yn yr ysgol a tu allan. Rydw i yn cyfarfod fy ffrindiau yn y Scouts ac wrth ddawnsio disgo yn y clwb dawnio. Rydw i yn aelod o'r Urdd ac yn mwynhau cael lot o hwyl efo fy ffrindiau yn gwneud lot o bethau gwahanol. Rydw i wrth fy modd yn byw yn Llaneilian ac wrth fy modd yn siarad Cymraeg.



Fy enw i yw Dana Jefferiss, dwi'n 9 oed ac yn byw yn Llangefni. Cyn symud i Llangefni gyda fy mam, brawd a chwaer roeddwn i yn byw yn Coventry. Dwi'n hoffi Ysgol y Graig ohewydd mae gen i llawer o ffrindiau yma. Rydw i hefyd yn hoffi yr ysgol oherwydd rydw i yn gallu siarad cymraeg. Dwi yn hoffi yr pobol yn Ysgol y Graig. Pam nes i symud i Cymru roeddwn i'n drist oherwydd doedd gen i ddim llawer o teulu yma, ond rwan rydw i wedi gwneud llawer o ffrindiau a teulu yma.